**Crynodeb o Gyfarfod Bwrdd S4C**
Cyfarfod Rhif 463 a gynhaliwyd yn yr Egin

09.30, 25 Mai 2023

| **Aelodau oedd yn bresennol:** | | |
|---|---|---|
| Rhodri Williams | RhW | (Cadeirydd y Bwrdd) |
| Guto Bebb | GB | (Aelod Anweithredol) |
| Suzy Davies | SuD | (Aelod Anweithredol) |
| Adele Gritten | AG | (Aelod Anweithredol) |
| Chris Jones | CJ | (Aelod Anweithredol) |
| Denise Lewis Poulton | DLP | (Aelod Anweithredol) |
| Siân Doyle | SD | (Prif Weithredwr) |
| Llinos Griffin-Williams | LlGW | (Prif Swyddog Cynnwys) |
| Elin Morris | EM | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| **Eraill oedd yn bresennol:** | | |
| Geraint Pugh | GP | (Ysgrifennydd Bwrdd S4C) |
| Bethan C. Williams | BCW | (Cynorthwy-ydd i Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| Dewi Evans | DE | (Cyfarwyddwr Prosiectau) |
| Sharon Winogorski | ShW | (Prif Swyddog Cyllid) |
| Eilir Jones | EJ | (Pennaeth Ymchwil) |
| Derbyniwyd ymddiheuriadau gan: | | |
| Geraint Evans | GE | (Cyfarwyddwr Strategaeth Cynnwys a Chyhoeddi) |

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Materion a godwyd gan y Cadeirydd, a datganiadau diddordeb**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.<br><br>Gofynnodd i unrhyw Aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod i ddatgan eu diddordeb. Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau perthnasol. Nodwyd serch hynny bod aelodau wedi nodi diddordebau parhaol mewn perthynas â'u haelodaeth o'r Bwrdd. | |
| 2. | **Proses Capital Law**<br><br>Derbyniwyd papur gan yr Ysgrifennydd i gofnodi'n ffurfiol ymateb yr aelodau anweithredol i lythyr a dderbyniwyd gan Bectu<br><br>Esboniwyd bod bwriad cylchredeg nodyn at holl staff S4C dros y dyddiau nesaf – yn enw'r Cadeirydd – fyddai'n esbonio'r cylch gorchwyl oedd wedi ei gytuno ar gyfer y broses gan yr aelodau anweithredol. Y gobaith oedd y byddai'r nodyn yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gan staff. | |
| 3. | [ymunodd LlGW, EM BCW, a DE â'r cyfarfod]<br><br>**Diweddariad chwarterol ar ddashfwrdd cyflawni'r Strategaeth (ar gyfer y DCMS)**<br><br>Cyflwynodd DE'r fersiwn diweddaraf o'r dashfwrdd chwarterol. Byddai'n cael ei gyflwyno mewn cyfarfod gyda'r DCMS ar 14 Mehefin 2023.<br><br>Nodwyd bod 34 o'r 62 amcan gwreiddiol bellach wedi'u cwblhau. Roedd y gofrestr risgiau hefyd wedi'i symleiddio fymryn, gan ddileu'r prif risgiau sydd yn ymddangos ar y gofrestr risg strategol beth bynnag, a chroes-gyfeirio at y gofrestr risgiau gweithredol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nodwyd bod y Tîm Trawsnewid newydd – sef y Tîm Gweithredol gynt – wedi cynnal ei gyfarfod cyntaf ym mis Ebrill. Drwy sefydlu'r tîm newydd hon, y gobaith oedd hwyluso cyflawni'r strategaeth newydd a sicrhau bod aelodau'r tîm (fe arweinwyr y gwahanol adrannau) yn deall beth yw'r gwaith sydd angen ei wneud er mwyn bod yn gyhoeddwr aml-blatfform llwyddiannus.<br><br>Aethpwyd ymlaen i drafod manylion o ran y strategaeth cynnwys i ehangu'r gynulleidfa, yn arbennig felly cynulleidfa iau a C2DE, ac i ehangu ar y ddarpariaeth aml-blatfform. Roedd GB o'r farn y dylid cael trafodaeth ar y tensiwn rhwng denu cynulleidfa iau a'r grŵp sosio-economaidd C2DE, gan nad oedd yn debygol y byddai'r un cynnwys yn apelio at y cynulleidfaoedd hyn.<br><br>Adroddodd CJ iddo fynychu sesiwn gyda'r DCMS yn ddiweddar ar gyfer cadeiryddion Pwyllgor Archwilio, ac iddynt nodi mai eu blaenoriaethau ar hyn o bryd yw: gwneud y defnydd gorau o ddata, cynnig cyfleoedd i ieuenctid, a 'placemaking' (sef yr enw cyfredol ar gyfer 'levelling up'). Awgrymodd CJ y gellid ailstrwythuro'r adroddiad i'r DCMS i bwysleisio'r agweddau hyn.<br><br>**Penderfyniad: Bod y dashfwrdd yn cael ei ddiwygio yn sgil adborth aelodau'r Bwrdd, ac yna'n cael ei gyflwyno i'r DCMS.**<br><br>[gadawodd DE'r cyfarfod] | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>DE |
| 4. | **Adroddiad y Prif Weithredwr**<br><br>Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad, gan amlinellu'r gwaith sydd wedi digwydd dros y cyfnod diweddar. Nodwyd bod elfennau o'r adroddiad eisoes wedi eu crybwyll yn ystod y cyfarfod anffurfiol a gynhaliwyd ar 19 Mai 2023 rhwng yr aelodau anweithredol a'r Tîm Rheoli.<br><br>O ran yr adrannau Cyfathrebu a Marchnata, nodwyd fod llawer iawn o waith yn mynd yn ei flaen a bod tri phenodiad pwysig wedi'i wneud – sef y Cyfarwyddwr Marchnata a Chyfathrebu; y Pennaeth Marchnata; ac Arweinydd y Tîm Cyfathrebu. Roedd cwmni allanol hefyd wedi bod yn cynorthwyo'r Adran Farchnata i adolygu prosesau ac adnabod y sgiliau fydd eu hangen ar aelodau'r adran i'r dyfodol. Bydd y cwmni'n cyflwyno argymhellion i'r Tîm Rheoli, gydag adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyfathrebu ganol Mehefin.<br><br>Adroddodd SD bod trafodaethau'n parhau ynghylch lansio cynnwys S4C ar sianel FAST yn yr UDA. Roedd bwriad rhannu'r manylion gydag aelodau'r Bwrdd Masnachol i gael eu mewnbwn. Byddai cyhoeddiad yn cael ei wneud ar ôl cwblhau'r cytundeb.<br><br>Yn ystod y Gynhadledd Cyfryngau Cymru yng Nghaerdydd yn gynt yn y mis, roedd S4C wedi lansio'r gronfa ffilm – Sinema Cymru – mewn partneriaeth gyda Ffilm Cymru a Chymru Greadigol. Adroddwyd hefyd bod bwriad cydweithio gyda Wales Interactive i gynhyrchu ffilm ryngweithiol. | |
| <br><br>5. | [ymunodd ShW â'r cyfarfod]<br><br>**Ystyried yr agwedd 'Tybiaeth Cwmni Gweithredol'**<br><br>Cyflwynodd ShW adroddiad oedd yn cynnig sicrwydd i'r Bwrdd y gellid llunio'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2022–23 ar sail cwmni gweithredol.<br><br>Cytunwyd bod cadarnhad o setliad ffi'r drwydded tan ddiwedd Mawrth 2028 yn rhoi cryn sicrwydd ariannol i S4C. Serch hynny, nododd ShW bwysigrwydd y camau sy'n cael eu cymryd i reoli costau cynnwys yn sgil chwyddiant.<br><br>**Penderfyniad: I gyfrifo ar sail cwmni gweithredol yn y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2022–23.**<br><br>[gadawodd ShW ac AG y cyfarfod] | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>ShW |
| 6 | **Cymeradwyo Adolygiad Cynnwys 2022–23 (ar gyfer Ofcom)**<br><br>Ni fu modd cylchredeg yr adroddiad i'r aelodau cyn y cyfarfod. Byddai felly'n cael ei gylchredeg dros e-bost.<br><br>**Penderfyniad: Bod yr Adolygiad Cynnwys 2022–23 yn cael ei gylchredeg i'w gymeradwyo dros e-bost.** | <br><br><br><br><br>LlGW |

| | | |
|---|---|---|
| 7. | [ymunodd EJ â'r cyfarfod]<br><br>**Canlyniad yr Arolwg Tracio Delwedd blynyddol**<br><br>Cyflwynodd EJ canlyniadau'r Arolwg Tracio Delwedd diweddaraf, ac amlinellodd y prif agweddau.<br><br>[gadawodd EJ y cyfarfod] | |
| 8. | **Diweddariad ar brif ddeiliaid cyllideb oddi fewn i S4C**<br><br>Derbyniwyd adroddiad blynyddol ar y trefniadau dirprwyaeth ariannol oddi fewn i S4C am y cyfnod 2023–24. | |
| 9. | **Cofnodion Cyfarfod Rhif 462 (a gynhaliwyd 09.03.23)**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Bwrdd, ac fe'u cymeradwywyd. | |
| 10. | **Cofrestr Pwyntiau Gweithredu**<br><br>Nodwyd y gofrestr Pwyntiau Gweithredu. | |
| 11. | **Penderfyniad rhwng cyfarfodydd**<br><br>Ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd, roedd yr aelodau wedi cymeradwyo'r canlynol drwy ohebu:<br>• Penodiad y Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata. | |
| 12. | **Adroddiadau gan y Pwyllgorau**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgorau canlynol, ac fe wahoddwyd y cadeiryddion i dynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw faterion perthnasol nad oeddent eisoes wedi eu crybwyll yn ystod y cyfarfod hwn:<br>• Bwrdd y Grŵp Masnachol (a gynhaliwyd 26.04.23)<br>• Archwilio a Risg (a gynhaliwyd 16.05.23)<br><br><u>Y Pwyllgor Archwilio a Risg</u><br><br>Adroddodd CJ i'r Pwyllgor dderbyn Adroddiad Blynyddol yr archwilwyr mewnol, TIAA, oedd yn gadarnhaol iawn.<br><br>Roedd y Pwyllgor hefyd wedi nodi bod yr argymhellion a wnaed gan TIAA fel rhan o'u hymchwiliad i'r honiadau yn ymwneud â threfniadau caffael S4C yn gynt eleni i gyd bellach wedi eu cyflawni.<br><br>Roedd Prif Swyddog Diogelu Gwybodaeth y BBC, Helen Rabe, wedi mynychu cyfarfod diwethaf y Pwyllgor i roi cyflwyniad a chynnig sicrwydd i'r aelodau ar y trefniadau sydd gan y BBC mewn lle i ddiogelu'r systemau technoleg gwybodaeth a darlledu mae S4C yn eu defnyddio. | |
| 13. | **Rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y 12 mis nesaf**<br><br>Nodwyd rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn nesaf. | |